# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 21 Ionawr 2020

Amser: 09.03 - 10.25

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5908

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Janet Finch-Saunders AC (Cadeirydd)<br>Michelle Brown AC<br>Neil McEvoy AC<br>Jack Sargeant AC<br>Leanne Wood AC |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Mared Llwyd (Ail Glerc)<br>Ross Davies (Dirprwy Glerc)<br>Samiwel Davies (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Deisebau newydd

### 2.1 P-05-924 Sicrhau bod Llysgenhadon Llesiant ym mhob ysgol yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i wahodd Llysgenhadon Lles Ysgol Dŵr y Felin i roi tystiolaeth bellach ar eu rôl, naill ai trwy gyfarfod â'r Pwyllgor neu ddarparu hyn ar ffilm.

### 2.2 P-05-929 Annog y defnydd o 'Cymru' a 'Cymry' wrth gyfeirio atom ein hunain yn y Gymraeg a'r Saesneg

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i rannu'r wybodaeth bellach a ddarparwyd gan y deisebydd gyda Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol a gofyn am ei hymateb i'r pwyntiau ychwanegol a nodwyd.

### 2.3 P-05-931 Eli haul mewn ysgolion

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i aros i glywed barn y deisebydd ar yr ymateb a ddarparwyd gan y Gweinidog Addysg cyn penderfynu a ddylid cymryd camau pellach ynghylch y ddeiseb.

### 2.4 P-05-932 Addysg ar alergeddau bwyd mewn ysgolion a hyfforddiant EPI-PEN gorfodol

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Addysg i ofyn am eglurhad ar y gwaith o fonitro gweithrediad y canllawiau a gofyn iddynt sicrhau yr ymgynghorir â'r deisebydd a phobl eraill sydd â phrofiad byw wrth adolygu'r dull ar gyfer alergeddau ac imiwnoleg o safbwynt iechyd. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i gynnig bod swyddogion y Gweinidog yn cwrdd â'r deisebydd i drafod y cymorth presennol i blant ag alergeddau mewn ysgolion.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 P-05-724 Hawliau i Ofal Iechyd Sylfaenol yn Gymraeg

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth bellach a chytunodd i gau'r ddeiseb ar y sail ei bod yn ymddangos nad oes llawer mwy y gall y ddeiseb ei gyflawni yn sgil y ffaith bod y

Rheoliadau wedi'u gweithredu'n ddiweddar a'r sicrwydd a roddwyd gan y Gweinidog mai pwrpas yr adolygiad fydd ceisio canfod ffyrdd i'w cryfhau.

### 3.2 P-05-751 Cydnabod achosion o Ddieithrio Plentyn oddi wrth Riant

Datganodd Neil McEvoy y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae'n gyn-ddefnyddiwr gwasanaeth y deisebwyr ac wedi cyflogi'r prif ddeisebydd yn y gorffennol.

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth bellach a chytunodd i ysgrifennu yn ôl at Cafcass Cymru i ofyn am eu hymateb i'r cynigion ar gyfer monitro'r gwaith o weithredu canllawiau *Anfodlonrwydd neu Wrthodiad Plant i Dreulio Amser gyda Rhiant*, gan gynnwys y dangosyddion a awgrymir, a wnaed gan y deisebwyr.

### 3.3 P-05-754 Diffyg cymorth i blant ag anableddau mewn argyfwng

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth bellach a chytunodd i gau'r ddeiseb yn sgil y wybodaeth a ddarparwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ynghylch mesurau sy'n cael eu gweithredu'n lleol, a'r sicrwydd blaenorol nad oes unrhyw rwystr yn y polisi cenedlaethol i blant ag anableddau dysgu gael mynediad at gymorth argyfwng iechyd meddwl. Diolchodd y Pwyllgor i'r deisebydd am ddefnyddio'r broses ddeisebau ac roedd yn dymuno ei hannog hi a'i theulu i gysylltu â'u Haelodau Cynulliad etholaethol a rhanbarthol yn ôl yr angen yn y dyfodol.

### 3.4 P-05-870 Gadewch i ni Sicrhau y Caiff Calon Pob Person Ifanc (10-35 oed) ei Sgrinio

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth bellach a chytunodd i ofyn am awgrymiadau ar gyfer unrhyw ffynonellau gwybodaeth neu dystiolaeth bellach, yn sgil penderfyniad Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU i beidio ag argymell sgrinio poblogaeth systematig ar gyfer cyflyrau cardiaidd sy'n gysylltiedig â SCD yn yr ifanc yn dilyn adolygiad diweddar o dystiolaeth.

### 3.5 P-05-892 Penodi Comisiynydd Anabledd Dysgu i Gymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth bellach a chytunodd i nodi'r wybodaeth a ddarparwyd ynghylch sut y caiff y gwaith o weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ei werthuso. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i gau'r ddeiseb yn sgil y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod sefydlu swydd Comisiynydd Anabledd Dysgu ar hyn o bryd, a bod y deisebwyr wedi derbyn hyn yn flaenorol.

### 3.6 P-05-750 Ar gyfer eitemau untro: cyflwyno System Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd a sicrhau y gellir compostio cynwysyddion bwyd cyflym a'r offer sy'n gysylltiedig â hwy.

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth bellach a chytunodd i ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol i ofyn am ddiweddariad ar gyfraniad Llywodraeth Cymru i'r gwaith i ddatblygu Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd yng Nghymru a Lloegr, yn dilyn yr ymgynghoriad blaenorol yn 2019 ac i ofyn beth yn fwy y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i helpu i gyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes yng Nghymru.

### 3.7 P-05-803 Mae ein byd naturiol yn cael ei wenwyno gan blastigau untro...mae'n bryd cyflwyno treth!

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth bellach a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog cyllid i ofyn am ddiweddariad ar gyfraniad Llywodraeth Cymru i waith Llywodraeth y DU i weithredu treth ar becynnau plastig, ac opsiynau trethi penodol sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd i Gymru.

### 3.8 P-05-829 Gwahardd Eitemau Plastig Untro yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth bellach a chytunodd i gau'r ddeiseb yn sgil y camau sy'n cael eu cymryd ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno gwaharddiad neu gyfyngiadau ar eitemau plastig defnydd sengl, a chydnabod yr amserlenni sy'n gysylltiedig â chyflwyno gwaharddiad o'r fath.

### 3.9 P-05-822 Gwahardd gwellt plastig (wrth yfed llaeth) yn ein hysgolion

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth bellach a chytunodd i gau'r ddeiseb yn sgil y wybodaeth a dderbyniwyd gan y Pwyllgor am y camau sy'n cael eu cymryd i leihau neu ddileu'r defnydd o wellt plastig a bwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno gwaharddiad neu gyfyngiadau ar eitemau plastig untro yn y dyfodol, a'r amgylchiadau mewn perthynas â chyfyngu ar eu defnydd mewn ysgolion drwy drefniadau lleol a chontractau caffael.

Roedd y Pwyllgor hefyd am longyfarch Senedd Ysgol y Wern ar eu defnydd o'r broses ddeisebu a diolch i'r ysgol a'r disgyblion am eu hymgysylltiad trwy gydol ystyriaeth y Pwyllgor o'r mater hwn.

### 3.10 P-05-801 Rhaid achub y coed a'r tir yng Ngerddi Melin y Rhath a Nant y Rhath cyn iddi fynd yn rhy hwyr

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ychwanegol a chytunodd i:

- barhau i gadw golwg craff ar y mater a gofyn am ddiweddariad pellach ar ôl i fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried opsiynau, a ragwelir fydd yn gynnar yn 2020; ac
- aros am gael barn y deisebwyr am y sefyllfa bresennol.

### 3.11 P-05-815 Rheoli'r Diwydiant Dofednod Dwys sy'n Ehangu'n Gyflym yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth bellach a chytunodd i ysgrifennu yn ôl at Weinidog yr Amgylchedd i rannu pryderon y deisebwyr a gofyn iddi ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd gan y deisebwyr yn eu gohebiaeth ddiweddaraf, a hefyd rhannu'r ohebiaeth gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a gofyn am eu hymatebion i'r materion sy'n berthnasol iddynt.

### 3.12 P-05-825 Diogelu ysgyfaint plant rhag llygredd niweidiol tra maent yn yr ysgol

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth bellach a chytunodd i aros am ganlyniad yr ymgynghoriad presennol ar y Cynllun Aer Glân drafft ar gyfer Cymru ac unrhyw

newidiadau neu welliannau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu gwneud o ganlyniad, cyn trafod y ddeiseb eto.

### 3.13 P-05-911 Dylid Diogelu Coed Yw Hynafol Cymru

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth bellach a chytunodd i ysgrifennu at Cadw i ofyn am fanylion am unrhyw amddiffyniadau a roddir i goed hynafol fel ywen yng Nghymru, neu unrhyw gynlluniau y gellid eu defnyddio at y diben hwn.

### 3.14 P-05-783 Sicrhau Cydraddoldeb Cwricwlwm i Ysgolion Cyfrwng Cymraeg e.e. Seicoleg TGAU

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth bellach a chytunodd i aros am ganlyniadau ymgynghoriad Cymwysterau Cymru, *Cymwys ar gyfer y Dyfodol,* a thrafod y ddeiseb eto bryd hynny.

### 3.15 P-05-805 Rhoi chwarae teg i Athrawon Cyflenwi

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i lunio adroddiad o'i ystyriaeth o'r ddeiseb.

### 3.16 P-05-828 Rhagdybiaeth o blaid ysgolion gwledig

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth bellach a chytunodd i gau'r ddeiseb yn sgil y ffaith bod y Gweinidog Addysg wedi dangos parodrwydd i ymyrryd o'r blaen mewn sefyllfaoedd lle mae pryderon nad yw awdurdodau lleol wedi dilyn y Cod Trefniadaeth Ysgolion, ac oherwydd ei bod yn ymddangos nad oes llawer o arwydd y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno proses apelio yn erbyn cau ysgolion ar hyn o bryd. Roedd y Pwyllgor am ddiolch i'r deisebwyr am eu hymgysylltiad a dymuno'n dda iddynt ar gyfer y dyfodol.

### 3.17 P-05-884 Diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 i gynnwys sefydliadau'r DU sydd â gweithrediadau dramor

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth bellach a chytunodd i ysgrifennu'n ôl at y Gweinidog Addysg i ofyn am ymateb pellach ar fater dynodi'r cyrsiau penodol yn Sefydliad Prifysgol Llundain ym Mharis fel rhai sy'n gymwys i gael cyllid, fel dewis arall yn lle gwneud newidiadau ehangach i'r Rheoliadau.

### 3.18 P-05-888 Gwneud TGAU Iaith Gymraeg yn orfodol ym mhob ysgol yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth bellach a chytunodd i aros am gyfnod byr i gael barn bellach gan y deisebydd, gyda'r bwriad o gau'r ddeiseb ar y sail ei bod yn ymddangos nad oes llawer mwy y gallai'r ddeiseb ei chyflawni yn sgil y wybodaeth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Ysgolion Annibynnol Cymru.

### 3.19 P-05-891 Mae angen dod â phrofion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ar gyfer plant mor ifanc â 6 oed i ben ar unwaith

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth bellach a chytunodd i gau'r ddeiseb ar y sail bod y Gweinidog Addysg wedi darparu ei rhesymeg dros ddarparu asesiadau safonol i fesur gallu plant mewn llythrennedd a rhifedd gan ddechrau o Flwyddyn 2, ac yn sgil y ffaith bod asesiadau personol ar-lein newydd wrthi'n cael eu cyflwyno.

### 3.20 P-05-909 Hyrwyddo'r defnydd o iaith arwyddion Makaton ym mhob ysgol yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth bellach a chytunodd i ysgrifennu eto at y Gweinidog Addysg, gan nodi y bydd ysgolion yn gallu penderfynu pa 'ieithoedd rhyngwladol' sydd fwyaf priodol i'w hamgylchiadau penodol o dan y cwricwlwm newydd, a gofyn pa gyfleoedd fyddai yna i Lywodraeth Cymru (neu eraill) annog neu gefnogi darpariaeth fwy anffurfiol o Makaton mewn ystafelloedd dosbarth, er enghraifft drwy ddysgu arwydd dyddiol.

### 3.21 P-05-818 Cyflwyno Cofrestr o Lobïwyr yng Nghymru

Cytunodd y Pwyllgor i aros am farn y deisebwyr gyda'r bwriad o gau'r ddeiseb yn sgil bwriad y Pwyllgor Safonau i wneud gwaith pellach ar y mater hwn a nodi cynnig ar gyfer y chweched Cynulliad.

### 3.22 P-05-853 Na i gau Cyffordd 41 o gwbl

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth bellach a chytunodd i aros i ganlyniadau monitro pellach gael eu cyhoeddi ar y terfyn cyflymder 50mya rhwng cyffyrdd 41 a 42, a datblygu Mesurau Cadw Rhagofal ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, ym mis Mawrth 2020.

### 3.23 P-05-863 Darparu cynhyrchion hylendid am ddim i bob menyw mewn cartrefi incwm isel

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ychwanegol a chytunodd i:

- aros am farn y deisebwyr am y wybodaeth a ddarparwyd, a
- chadw golwg manwl ar unrhyw ddatblygiadau pellach ar y pwnc hwn.

### 3.24 P-05-882 Trawsnewid yr ymateb i bobl hŷn sy'n dioddef camdriniaeth ddomestig - galw am weithredu

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth bellach a chytunodd i ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i:

- ofyn i'w swyddogion ymgysylltu'n uniongyrchol â'r deisebwyr ar y pwyntiau y maent yn eu codi mewn perthynas â manylion hyfforddiant ac arweiniad proffesiynol, a sut y gall gwasanaethau adlewyrchu anghenion pobl hŷn sy'n profi cam-drin domestig yn well; a
- gofyn pa gyfran o'r cyllid sy'n cael ei ddyrannu ar gyfer gwasanaethau allgymorth, y gall pobl hŷn eu cyrchu, ac a yw'r gwasanaethau hyn ar gael ym mhob rhan o Gymru.

### 3.25 P-05-871 Trefnu bod cyfleusterau newid cewynnau ar gael mewn toiledau i ddynion a thoiledau i fenywod

Cytunodd y Pwyllgor i aros am ymateb i ohebiaeth ddiweddar y mae wedi'i hysgrifennu mewn perthynas â chynyddu'r ddarpariaeth o doiledau lleoedd newid, cyn ystyried ymhellach sut y gall polisïau cynllunio ymdrechu i wella'r ystod o gyfleusterau toiledau sydd ar gael.

Cytunodd y Pwyllgor hefyd i ysgrifennu at Gomisiwn y Cynulliad mewn perthynas ag awgrym bod arwyddion ar sail rhyw yn y Senedd.

### 3.26 P-05-865 Dylid gwarantu bod dewisiadau sy'n seiliedig yn llwyr ar blanhigion ar bob bwydlen y sector cyhoeddus, i ddiogelu hawliau figaniaid ac er budd ein hiechyd, yr amgylchedd ac anifeiliaid

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth bellach a chytunodd i ofyn am friff cyfreithiol ar y cwestiwn a oes angen deddfwriaeth sylfaenol er mwyn cyflawni'r newidiadau a geisir gan y deisebwyr; ac yn dilyn hynny, ysgrifennu eto at Lywodraeth Cymru i wneud cynigion perthnasol ar sut i fynd i'r afael â'r mater hwn.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Ystyried ymateb drafft a anfonwyd at Gadeirydd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad

Cytunodd y Pwyllgor ar gynnwys drafft llythyr mewn ymateb i gais am wybodaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad.